Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Disgrifiad Swydd: Gwyddonydd Data**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd |
| **Adran/Pwnc:** | Gwyddor Data Poblogaethau |
| **Cyflog:** | Gradd 7: £34,132 to £38,249 y flwyddyn |
| **Oriau gwaith:** | Amser Llawn – (35 awr yr wythnos) |
| **Nifer y swyddi:** | 1 |
| **Contract:** | Swydd am gyfnod penodol tan 31 Mawrth 2027 |
| **Lleoliad:** | Lleolir y swydd hon ar Gampws Parc Singleton |

**Prif Ddyletswyddau**

Diben y rôl yw cefnogi gwaith Prifysgol Abertawe yng nghydweithrediad Dementias Platform Uk (DPUK), menter sy'n werth £53 miliwn a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Meddygol cyhoeddus/preifat i greu cyfleuster ymchwil dementia pellgyrhaeddol ac arloesol, gan gynnwys disgyblaethau ymchwil gwahanol o ymchwil i fôn-gelloedd dynol i ddadansoddi data. Mae DPUK yn adnodd sy'n arwain y byd ar gyfer ymchwil i ddementia sy'n canolbwyntio ar bobl â'r nod o ddatblygu dealltwriaeth wyddonol, triniaethau ac atal y clefyd ar lwybr carlam.

Prif bwrpas y rôl hon yw cefnogi'r gwaith o ddatblygu galluoedd Porth Data DPUK drwy hyrwyddo datblygiad a chymhwysiad data synthetig. Byddwch chi'n gweithio'n agos gyda'n partneriaid a'r tîm ehangach i greu offer data synthetig cadarn a phiblinellau sy'n sicrhau ymchwil data diogel.

Prif ffocws y swydd hon yw gweithio ar ddatblygu offer ac arddangos gwerth byd go iawn data synthetig mewn ymchwil data ac amgylchoedd diogel. Fel rhan o'r effaith ehangach, byddwch yn cydweithio â phrosiect Grŵp Cymunedol UK Synthetic Data i helpu i lywodraethu, safoni a datblygu'r offer ar gyfer data synthetig. Byddwch hefyd yn datblygu astudiaethau achos dadansoddol sy'n amlygu defnydd gwahanol o fathau o ddata synthetig, gan weithio gyda chydweithwyr i greu deunyddiau ac adnoddau ar gyfer gweithdai, a chynorthwyo i ysgrifennu a lledaenu adroddiadau a chanfyddiadau ymchwil i'r gymuned wyddonol ehangach.

1. Datblygiad piblinell: Dylunio, adeiladu, a chynnal piblinellau a setiau data am ddata synthetig.
2. Arddangos gwerth y byd go iawn: Arddangos cymhwysiad ymarferol data synthetig mewn TRE trwy astudiaethau achos sy'n amlygu defnyddioldeb data synthetig mewn achosion gwahanol.
3. Dylanwadu ar Safonau Cenedlaethol: Gweithio gyda Grŵp Cymunedol UK Synthetic Data i helpu i lywodraethu fframweithiau, safonau arferion gorau a rhannu offer ar gyfer data synthetig.
4. Cydweithio â chydweithwyr i greu deunyddiau gweithdai, adnoddau a chanllawiau hyfforddiant i alluogi defnydd ehangach o ddata synthetig ar draws y gymuned ymchwil data.
5. Lledaenu Canfyddiadau: Cofnodi canfyddiadau ymchwil, creu adroddiadau technegol, ac arddangos canlyniadau i randdeiliaid a'r gymuned wyddonol ehangach.
6. Gweithio'n agos gyda phartneriaid a phrosiectau ehangach i greu offer data synthetig, setiau data a phiblinellau cadarn sy'n sicrhau ymchwil diogel, cyfunol.
7. Cyfrannu'n rhagweithiol at ymchwil a chynnal ymchwil, gan gynnwys casglu, paratoi a dadansoddi data, meddwl am syniadau newydd a chyflwyno canfyddiadau.
8. Paratoi adroddiadau, drafftio patentau a phapurau sy'n disgrifio canlyniadau'r ymchwil, boed yn gyfrinachol neu i'w cyhoeddi.
9. Bod yn hunangymhellol a defnyddio menter bersonol, gan geisio dod o hyd i ffyrdd addas o ymdrin â heriau a gofyn am arweiniad pan fo angen.
10. Rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn broffesiynol â chydweithredwyr a phartneriaid eraill yn y Gyfadran ac mewn mannau eraill yn y Brifysgol a'r tu hwnt fel y bo'n briodol, megis ym myd diwydiant/masnach, mewn sefydliadau cyhoeddus, ac yn y byd academaidd.

Swansea University
Prifysgol Abertawe

| | |
|---|---|
| | 11. Cyfrannu at faterion trefniadol y Gyfadran i'w helpu i weithredu'n hwylus a helpu i godi ei phroffil ymchwil allanol.<br>*12.* Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y maes, o safbwynt technegol, penodol a chyffredinol, a'u goblygiad ehangach ar gyfer maes y ddisgyblaeth, cymwysiadau masnachol a'r economi wybodaeth.<br>13. Gweithredu fel cynrychiolydd neu aelod o bwyllgorau pan fo angen, gan achub ar y cyfle i ehangu eich profiad proffesiynol.<br>14. Dangos eich datblygiad proffesiynol eich hun gan ddarparu tystiolaeth, nodi anghenion datblygu, gan gyfeirio at Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae, yn enwedig o ran cyfnod prawf, Adolygiad Datblygiad Proffesiynol a chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi.<br>15. Cynnal a gwella cysylltiadau â'r sefydliadau proffesiynol a chyrff cysylltiedig eraill.<br>16. Ufuddhau i brotocolau arfer gorau wrth gynnal a chadw cofnodion ymchwil, fel y'i nodir gan ganllawiau rheoli cofnodion sefydliadau addysg uwch a'r Cynghorau Ymchwil. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod cofnodion llyfrau log prosiectau yn cael eu cyflwyno i'r Brifysgol/Prif Ymchwilydd ar ôl gorffen y gwaith. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 17. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>18. Cyflawni rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisïau diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd, er mwyn lleihau'r risgiau a'r effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y swydd.<br>19. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.<br>20. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/y Gyfarwyddiaeth/y Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt. |
| **Manyleb Person** | **Meini Prawf Hanfodol:**<br>1. Gradd mewn Cyfrifiadureg/Gwyddor Data neu gyfwerth<br>2. Tystiolaeth o'r gallu i gymryd rhan weithredol mewn ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil, yn arbennig ar gyfer cylchgronau a adolygir a chyfrannu atynt.<br>3. Gallu amlwg i gynnal ymchwil yn unol ag amcanion y prosiect.<br>4. Tystiolaeth o sgiliau cynllunio i gyfrannu at y prosiect ymchwil.<br>5. Hyfedredd cryf mewn ieithoedd rhaglennu fel Python<br>6. Tystiolaeth o brofiad o wyddor data, deallusrwydd artiffisial a methodolegau ystadegol<br>7. Arbenigedd mewn gweithio gyda data mawr a datblygu modelau deallusrwydd artiffisial<br>8. Dealltwriaeth gadarn o breifatrwydd data a rheoliadau diogelwch<br>9. Profiad o ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol â rhanddeiliaid.<br>10. Profiad o weithio'n annibynnol gan ddefnyddio eich menter eich hun.<br>11. Tystiolaeth o brofiad o ysgrifennu a chreu adroddiadau clir a chynhwysfawr, sydd wedi'u teilwra i randdeiliaid technegol ac annhechnegol.<br>12. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus<br><br>**Meini Prawf Dymunol**<br>13. Profiad o ddatblygu pecynnau Python<br>14. Profiad o greu neu werthuso data synthetig<br>15. Profiad blaenorol o weithio gyda setiau data carfan hydredol ar raddfa fawr |
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Lefel 1 – 'ychydig' – ynganu geiriau Cymraeg. Gallu ateb y ffôn yn Gymraeg (bore da/pnawn da). Gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion pob dydd syml iawn (diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi.). Gallwch gyrraedd Lefel 1 drwy gwblhau cwrs hyfforddiant un awr.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael [yma](). |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Lewis Hotchkiss, lewis.hotchkiss@chi.abertawe.ac.uk |

Swansea University
Prifysgol Abertawe

Athena SWAN
Silver Award
ECU GENDER CHARTER

Stonewall
CYMRU
DIVERSITY CHAMPION

HR EXCELLENCE IN RESEARCH